***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 3100

# Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2008

## Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

(2) Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

## Tanwyddau awdurdodedig at ddibenion Rhan III o Ddeddf Aer Glân 1993

**2.** Datgenir bod glo caled, glo lled-galed, trydan, nwy, gloeau stêm isel eu hanweddolrwydd a'r tanwyddau a ddisgrifir yn yr Atodlen yn danwyddau awdurdodedig at ddibenion Rhan III o Ddeddf Aer Glân 1993.

## Dirymiadau ac arbedion

**3.**—(1) Dirymir Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2006(**1**).

(2) Bydd unrhyw danwydd a weithgynhyrchwyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, ac a oedd yn danwydd awdurdodedig adeg ei weithgynhyrchu, yn parhau i fod yn danwydd awdurdodedig er bod Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2006 wedi'u dirymu.

*Jane Davidson*
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd,
Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

3 Rhagfyr 2008

(**1**) O.S. 2006/2979 (Cy.270).